S4C

**Crynodeb o Gyfarfod Bwrdd S4C**
Cyfarfod Rhif 465 a gynhaliwyd yn rhithiol

09.45, 19 Hydref 2023

---

**Cofnodion**

| | | |
|---|---|---|
| **Aelodau oedd yn bresennol:** | | |
| Rhodri Williams | RhW | Cadeirydd y Bwrdd |
| Guto Bebb | GB | Aelod Anweithredol |
| Suzy Davies | SuD | Aelod Anweithredol |
| Adele Gritten | AG | Aelod Anweithredol |
| Chris Jones | CJ | Aelod Anweithredol |
| Denise Lewis Poulton | DLP | Aelod Anweithredol |
| Elin Morris | EM | Prif Swyddog Gweithredol |
| **Eraill oedd yn bresennol:** | | |
| Manon Edwards-Ahir | MEA | Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Marchnata |
| Geraint Evans | GE | Cyfarwyddwr Strategaeth Cynnwys a Chyhoeddi |
| Geraint Pugh | GP | Ysgrifennydd Bwrdd S4C |
| Dewi Evans | DE | Rheolwr Prosiectau – o eitem 2 ymlaen |
| Sharon Winogorski | ShW | Prif Swyddog Cyllid – o eitem 2 ymlaen |
| Catrin Whitmore | CW | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol – o eitem 2 ymlaen |
| Endaf Griffiths | EG | Cwmni Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd Wavehill |
| Rhys Maher | RhM | Cwmni Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd Wavehill |
| Michael Pang | MP | Cwmni Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd Wavehill |
| Sara Peacock | SP | Arweinydd Strategaeth y Gymraeg |
| **Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:** | | |
| Siân Doyle | SD | Prif Weithredwr |

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Cyfarfod preifat ar gyfer yr aelodau anweithredol**<br><br>Cafwyd trafodaeth ar ymchwiliad canfod ffeithiau Capital Law a'r llinell amser arfaethedig. Nodwyd y byddai e-bost yn cael ei gylchredeg i ddiweddaru staff wedi cyfarfod y Bwrdd.<br><br>Darparwyd diweddariad ar lafar i'r aelodau ar absenoldeb y Prif Weithredwr o'r gwaith. | |
| 2. | [ymunodd MEA, DE, GE, EM, ShW, a CW â'r cyfarfod]<br><br>**Materion a godwyd gan y Cadeirydd, a datganiadau diddordeb**<br><br>Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.<br><br>Gofynnodd y Cadeirydd unrhyw Aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod i ddatgan eu diddordeb. Adroddodd SuD ei bod yn aelod o fwrdd Iris, a bod S4C yn noddi eu gwobrau blynyddol fel y crybwyllir yn Adroddiad y Prif Weithredwr. Nodwyd hefyd bod aelodau wedi nodi diddordebau parhaol mewn perthynas â'u haelodaeth o'r Bwrdd. | |
| | [ymunodd EG, RhM a MP â'r cyfarfod] | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3. | **Cyflwyniad: Adroddiad Effaith Economaidd a Chymdeithasol S4C**<br><br>Yn dilyn proses dendro allanol, penodwyd cwmni Wavehill ym mis Ebrill 2023 i gynnal gwerthusiad annibynnol o effaith economaidd a chymdeithasol S4C. Croesawyd EG, RhM a MP i'r cyfarfod i gyflwyno uchafbwyntiau eu canfyddiadau. Wrth gyflwyno, amlinellwyd sut strwythurwyd y gwaith ymchwil ar sail y Datganiad Polisi ar Gyfraniad Cymdeithasol S4C, a'r fethodoleg ddefnyddiodd Wavehill.<br><br>Nodwyd bod canlyniad Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) S4C a gyfrifwyd gan Wavehill ar gyfer blwyddyn ariannol 2022–23 yn is na'r hyn a gyfrifwyd gan Arad mewn asesiad tebyg ar sail data 2019–20. Esboniodd Wavehill mae'r fethodoleg wahanol oedd wrth wraidd hyn, a bod eu methodoleg nhw yn debyg i'r rhai a ddefnyddiwyd gan ddarlledwyr eraill, a bod canlyniad GVA S4C yn gyson gyda rhai'r darlledwyr hynny.<br><br>Esboniodd GP bod Wavehill wedi drafftio adroddiad oedd yn cyflwyno eu canfyddiadau ar ffurf naratif. Roedd yr adroddiad hefyd yn darparu mwy o gyd-destun i'r uchafbwyntiau a gyflwynwyd i'r Bwrdd, ynghyd â chynnig astudiaethau achos. Byddai GP yn cylchredeg yr adroddiad i gael mewnbwn gan aelodau'r Bwrdd wedi'r cyfarfod. Y bwriad oedd cyhoeddi'r adroddiad yn hwyrach yn y flwyddyn.<br><br>Diolchwyd i Wavehill am eu cyflwyniad cynhwysfawr.<br><br>[gadawodd EG, RhM a MP y cyfarfod] | | |
| <br><br>4. | [ymunodd SP â'r cyfarfod]<br><br>**Cyflwyniad: Strategaeth y Gymraeg**<br><br>Croesawyd SP i'r cyfarfod, ac fe'i gwahoddwyd i gyflwyno'r strategaeth newydd. Wrth wneud hynny, amlinellodd SP prif amcanion y strategaeth, sef: i gefnogi Strategaeth 2022 S4C, Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru; gweithredu'r Memorandwm o Ddealltwriaeth (MoU) rhwng S4C a Llywodraeth Cymru; a denu gwylwyr newydd i gynnwys S4C. Cyfeiriodd SP hefyd at ganlyniadau gwaith ymchwil diweddar gydag unigolion sy'n dysgu'r Gymraeg.<br><br>Wrth drafod y strategaeth, pwysleisiwyd pwysigrwydd cydweithio'n effeithiol gyda phartneriaid megis Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a darlledwyr eraill. Nodwyd hefyd pwysigrwydd sicrhau bod ein cynnwys yn cwrdd ag anghenion dysgwyr, ac fe gadarnhaodd SP ein bod yn adolygu'r hyn mae S4C yn ei gynnwys ar draws ein llwyfannau.<br><br>Nodwyd bod unigolion a grwpiau allanol wedi mynegi pryder dros y misoedd diwethaf ynghylch safon y Gymraeg ar S4C, a'r defnydd cynyddol o'r Saesneg yn eu tyb nhw. Nodwyd ei bod yn bwysig adlewyrchu'r ffordd mae pobl yn siarad Cymraeg, yn hytrach na thargedu Cymraeg pur bob tro. Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod angen cyfiawnhad golygyddol dros gynnwys yn y Saesneg. Yn hynny o beth, esboniwyd bod Canllawiau Iaith S4C yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd.<br><br>**Penderfyniad: I gymeradwyo Strategaeth y Gymraeg.**<br><br>[gadawodd SP y cyfarfod] | SP | |
| 5. | **Adroddiad y Prif Weithredwr**<br><br>Cyflwynodd EM a GE yr adroddiad, gan amlinellu'r gwaith sydd wedi digwydd dros y cyfnod diweddar. Diolchodd RhW iddynt am ymgymryd â swyddogaethau'r Prif Weithredwr rhyngddynt yn ystod absenoldeb Siân Doyle.<br><br>Roedd y DCMS wrthi'n ystyried sut i gyfrifo'r raddfa CPI mewn perthynas â Ffi'r Drwydded o Ebrill 2023 ymlaen. Roedd swyddogion y DCMS eisoes wedi cael cyfarfod gydag EM a GP i drafod rhai opsiynau. Y disgwyliad oedd y byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud datganiad yn y dyfodol agos.<br><br>Byddai'r Gweinidog John Whittingdale AS yn ymweld â set Pobol y Cwm y prynhawn hwnnw. Byddai EM a GE yn ymuno â'r ymweliad i'w gyfarch. Nodwyd hefyd y byddai Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn mynychu digwyddiad yn yr Egin yr wythnos ganlynol i nodi pum mlynedd ers agor y ganolfan. | | |
| 6. | **Adroddiad Ariannol Chwarter 2** | | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyflwynodd ShW yr adroddiad ariannol ar gyfer Chwarter 2 2023–24. Amlinellwyd prif agweddau'r adroddiad.<br><br>Nododd ShW bod chwyddiant yn parhau i gael effaith ar draws gwahanol weithgareddau S4C ond bod modd symud arian wrth gefn rhwng gwahanol linellau cyllidebol mewn ymateb i hyn. Cadarnhawyd nad oedd hyn yn effeithio ar ein gallu i gyflawni unrhyw gynlluniau. | |
| 7. | **Cymeradwyo adroddiad sicrwydd ariannol i'r BBC**<br><br>Mae'r Cytundeb Partneriaeth, Ariannu ac Atebolrwydd rhwng S4C a'r BBC yn gofyn i S4C ddarparu Adroddiad Sicrwydd Ariannol i Fwrdd y BBC bob chwe mis. Cyflwynwyd felly drafft o adroddiad sicrwydd ariannol ar gyfer Ch1–Ch2 2023–24. Roedd adroddiad yn dilyn y fformat ffeithiol a gymeradwywyd gan yr Awdurdod ym mis Ebrill 2017.<br><br>**Penderfyniad: I gymeradwyo'r adroddiad i'w gyflwyno i'r BBC.** | <br><br><br><br><br><br><br>GP |
| 8. | **Diweddariad chwarterol ar ddashfwrdd cyflawni'r Strategaeth (ar gyfer y DCMS)**<br><br>Cyflwynodd DE ddiweddariad chwarterol o'r dashfwrdd, fyddai'n cael ei rannu gyda'r DCMS mewn cyfarfod yng Nghaerdydd ar 22 Tachwedd 2023. Amlinellodd DE y prif newidiadau ers i'r Bwrdd adolygu'r dashfwrdd ddiwedd Mehefin 2023.<br><br>Nododd DE ei fod yn llunio papur ychwanegol i'w gyflwyno i'r DCMS gyda'r dashfwrdd sy'n rhoi diweddariad penodol ar sut mae'r £7.5m o gyllid ychwanegol a ddyfarnwyd i S4C yn 2022 yn cael ei wario. Croesawodd RhW hyn, gan i'r DCMS ddweud yn flaenorol mai eu prif ddiddordeb yw'r defnydd o'r cyllid ychwanegol.<br><br>**Penderfyniad: I gymeradwyo'r dashfwrdd i'w gyflwyno i'r DCMS.**<br><br>[gadawodd AG y cyfarfod] | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>GP |
| 9. | **Cofnodion Cyfarfod Rhif 464 (a gynhaliwyd 29.06.23)**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod diwethaf y Bwrdd, ac fe'u cymeradwywyd. | |
| 10. | **Cofrestr Pwyntiau Gweithredu**<br><br>Nodwyd y gofrestr Pwyntiau Gweithredu. | |
| 11. | **Adroddiadau gan y Pwyllgorau**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgorau canlynol, ac fe wahoddwyd y cadeiryddion i dynnu sylw'r Bwrdd at unrhyw faterion perthnasol nad oeddent eisoes wedi eu crybwyll yn ystod y cyfarfod hwn:<br>• Archwilio a Risg (a gynhaliwyd 29.06.23 a 13.09.23)<br>• Cyfathrebu (a gynhaliwyd 29.09.23)<br>• Cynnwys (a gynhaliwyd 29.09.23)<br><br><u>Y Pwyllgor Archwilio a Risg</u><br><br>Ar 13 Medi 2023, roedd aelodau'r Pwyllgor wedi cael cyfle i ystyried y gofrestr risg ar ei newydd wedd, yn dilyn y gwaith dros yr haf i fudo'r gofrestr i'r system 4Risk newydd.<br><br><u>Y Pwyllgor Cyfathrebu</u><br><br>Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad gan yr Arweinydd Amrywiaeth, Cynaliadwyedd a Phwrpas Cymdeithasol ar ei flaenoriaethau ers cychwyn yn y swydd. Awgrymwyd y byddai'n fuddiol i'r Bwrdd dderbyn cyflwyniad tebyg maes o law.<br><br>Diolchodd DLP i EM am ei phapur ar adolygu polisïau corfforaethol S4C, a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod diwethaf.<br><br><u>Y Pwyllgor Cynnwys</u><br><br>Roedd y Pwyllgor wedi derbyn adroddiad ar ddigwyddiadau'r haf, ac wedi croesawu'r cynnydd yn y defnydd o gynnwys digidol eleni. | |
| 12. | **Penderfyniad rhwng cyfarfodydd**<br><br>Ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor, roedd yr aelodau wedi cymeradwyo dau fater trwy ohebu: | |

| | | |
|---|---|---|
| | Adolygiad o gyflog ShW yn sgil y cyfrifoldebau ychwanegol sydd nawr ganddi mewn perthynas â'r Tîm Masnachol.<br><br>I ddangos y gwariant yn ymwneud â phroses Capital Law, ynghyd â'r cyngor cyfreithiol cysylltiedig, fel gorwariant yn y cyfrifon rheoli, fydd yna'n cael ei ariannu o'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. | |
| 13. | **Rhaglen waith y Bwrdd ar gyfer y 12 mis nesaf**<br><br>Nodwyd rhaglen waith y Bwrdd ar gyfer y flwyddyn nesaf. | |